

Dyma fwydlen ar gyfer cinio mewn caffi lleol:

- pryd sbageti arbennig neu bei llysiau
- taten bob neu salad
- oren neu iogwrt neu hufen iâ

Beth yw'r holl brydau bwyd posibl y gallech eu cael (gan ddewis un o bob llinell bob tro)?

Rhowch bris i bob eitem a chyfrifwch gost pob pryd bwyd. Pa un a fyddai'r rhataf?

Dychmygwch eich bod yn mynd i agor bwyty - dewiswch ddau brif bryd a dau bwdin y byddech yn eu rhoi ar y fwydlen. Faint y byddent yn ei gostio?



Sylwadau'r teulu:

Sylwadau'r plentyn:



Cyswllt Cwricwlwm

Datrys problemau arian mewn cyd-destun, er enghraifft dewisiadau o brydau bwyd ar fwydlen.

Paratoi pizza



Family Maths
Toolkit

Mewn bwyty pizzas lleol, mae Antonio'n defnyddio $\frac{3}{5}$ o jar o domatos wedi'u torri ar bob pizza.

Mae ganddo 4 jar o domatos. Faint o pizzas y gallai eu gorchuddio?

Mae hefyd yn defnyddio tybiau o gaws wedi'i gratio. Mae'n defnyddio $\frac{2}{3}$ o dwb ar bob pizza ac mae ganddo 5 twb o gaws - ar faint o pizzas y gallai roi caws?



Awgrym defnyddiol: Tynnwch luniau'r jariau a'r tybiau a'u rhannu'n ôl y ffracsiynau gofynnol.

Sylwadau'r teulu:

Sylwadau'r plentyn:



**Cyswllt
Cwricwlwm**

Datrys problemau sy'n cynnwys ffracsiynau i rannu meintiau; adio a thynnu ffracsiynau â'r un enwadur.

Pe byddai'n rhaid i chi gynllunio taith i Fangor, gyda theulu neu ffrindiau, pa gludiant y byddech yn ei ddefnyddio a pha mor hir y byddai'r daith yn ei gymryd?

Defnyddiwch y rhyngwrwyd, llyfrau neu'r dychymyg i ysgrifennu amserlen o'ch taith. Os ydych yn byw ym Mangor neu'n agos at y ddinas, dewiswch gyrchfan ymhellach i ffwrdd!



Sylwadau'r teulu:

Sylwadau'r plentyn:



Cyswllt Cwricwlwm

Darllen, ysgrifennu a throsi amser rhwng clociau 12 a 24 awr analog a digidol, a chyflwyno'r data.